

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

### 326 - Beirniadaeth Barddoniaeth Blwyddyn 8

#### Beirniad: Llyr Gwyn Lewis

Diolch i'r deunaw a anfonodd eu cynigion. Mi gefais fwynhad mawr yn eu cwmni, a'r testun wedi llwyddo i gynnau'r dychymyg, gan arwain y beirdd i feddwl am wahanol ganhwyllau ac i gymharu ambell beth arall â chanhwyllau hefyd. Os oedd gwendid, roedd tuedd i raffu a rhestru cymariaethau a delweddau heb fod digon o gysylltiad rhyngddyn nhw, a heb geisio adrodd stori neu greu darlun mwy cyflawn. Ond mae'n amlwg bod sawl dychymyg byw ar waith yma felly gobeithio y bydd pob un o'r beirdd yn dal ati i gyfansoddi.

Yn y dosbarth cyntaf gosodaf BENDIGEIDFRAN, CALON CYMRAEG, GITARYDD, MOLI, CWNINGEN, GWENAN a LLEUCU. Mae pob un o'r rhain eisiau dweud rhywbeth penodol ac yn defnyddio'r gannwyll yn effeithiol fel delwedd estynedig i ddweud hynny. Mae yna lawer o dristwch a dwyster yma, er nad yw bob amser yn glir pam, fel yng ngherddi DIENW, GITARYDD a CALON CYMRAEG – efallai fod angen bod yn fwy penodol yn y cerddi hyn. Rhestr a gawn gan BENDIGEIDFRAN, ond mae'n rhestr syml, uniongyrchol sydd â diben pendant; dyma gerdd gynnil a theimladwy. Digwydd bod, mae MOLI a LLEUCU wedi mynd i'r un cyfeiriad yn union, ac wedi cyflwyno portreadau annwyl a dyfeisgar o'u cŵn anwes. Yn y ddwy gerdd y ci yw 'cannwyll llygad' y bardd – a dyna gysylltu â'r testun felly. Er tebygrwydd y ddwy gerdd, mae ynddyn nhw wreiddioldeb, bywiogrwydd, hiwmor a chynhesrwydd diffuant. O drwch blewyn, mae cerdd LLEUCU yn llifo'n fwy naturiol a diymdrech, felly mewn cystadleuaeth ddifyr, dyma sut rwy'n ei gweld hi, gyda llongyfarchiadau calonnog i'r tri ar y brig a diolch i'r beirdd i gyd:

1af – Lleucu Jones

2il – Lena Pierce

3ydd – Gwilym Jones